



## Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: Aseiad o Elfennau o Safon Ansawdd Tai Cymru

11 Ebrill 2019  
SB 13/2019

Mae'r datganiad hwn yn edrych ar aseiad o **rai o elfennau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)** fel y'u mesurwyd gan Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18. Safon Ansawdd Tai Cymru yw safon ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru. Er mai dim ond i dai cymdeithasol y mae'r safon yn gymwys, drwy ddadansoddi'r elfennau hynny a gafodd eu hasesu gan yr Arolwg, gallwn gymharu pob deiliadaeth er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r sector tai cymdeithasol a'r sector tai preifat. Nid yw anheddau gwag wedi'u cynnwys. Mae tablau ychwanegol sy'n ymwneud â'r elfennau hynny o SATC a gafodd eu hasesu gan yr Arolwg wedi cael eu hychwanegu at y Syllwr Canlyniadau ar [dudalen we yr Arolwg](#).

**Dim ond is-set o'r elfennau sydd eu hangen i asesu SATC yn llawn a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, felly dylid cymryd gofal wrth ddefnyddio'r ffigurau a ddarperir. Caiff [Ystadegau Swyddogol ar SATC](#) ar gyfer tai cymdeithasol eu llunio gan Lywodraeth Cymru ar sail ffurflenni gan landlordiaid cymdeithasol. Dylai defnyddwyr sydd am edrych ar dueddiadau yn y graddau y caiff y safon ansawdd ar gyfer tai cymdeithasol ei chyrraedd dros amser ddefnyddio'r Ystadegau Swyddogol, dylai'r rheini sydd am gymharu deiliadaethau ddefnyddio'r adroddiad hwn (gan nodi mai dim ond is-set o elfennau sydd wedi cael eu mesur). Ni ellir cymharu'r ddwy ffynhonnell ddata yn uniongyrchol.**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am yr elfennau sydd wedi cael eu hasesu gan yr Arolwg a sut. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu hasesu yn unol â [chanllawiau diwygiedig 2008](#) (Saesneg yn unig) gan Lywodraeth Cymru a luniwyd er mwyn helpu landlordiaid cymdeithasol i ddehongli a chyrraedd SATC. Mae'r aseiad o ddwy elfen wedi cael ei addasu yn unol â'r cyngor a roddwyd i landlordiaid cymdeithasol ar ddehongli'r canllawiau yn ymarferol. Lle bo hynny wedi digwydd, caiff hynny ei esbonio'n glir.

### Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn darparu aseiad o **rai o elfennau** Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), ar gyfer pob deiliadaeth, fel y'u mesurwyd gan Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18. Hefyd wedi'i gynnwys mae cymhariaeth ag [adroddiad Arolwg Byw yng Nghymru 2008 ar SATC](#).

### Yn y datganiad hwn

<a href="#">Cefndir</a>	2
<a href="#">Asesu elfennau</a>	2
<a href="#">Mesur procsi cyffredinol SATC</a>	6
<a href="#">Mesur procsi cyffredinol a addaswyd SATC</a>	7
<a href="#">Prif Elfennau</a>	8
<a href="#">Elfennau Eilaidd</a>	9
<a href="#">Ffynhonnell data amgen</a>	10
<a href="#">Atodiad A</a>	11
<a href="#">Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd</a>	13

## Cefndir

Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yw safon ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer tai cymdeithasol. Cafodd ei chyflwyno gyntaf yn 2002 a'i nod yw sicrhau bod pob tŷ cymdeithasol o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol. Pennodd Llywodraeth Cymru darged i bob landlord cymdeithasol wella ei stoc dai er mwyn cyrraedd SATC cyn gynted â phosibl, ond erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020 fan bellaf.

Mae SATC yn cynnwys 42 o asesiadau o elfennau unigol sy'n pennu a yw tai cymdeithasol yn cyrraedd y safon gyffredinol. Caiff pob un o'r elfennau hyn eu categoreiddio fel prif elfennau neu elfennau eilaidd. Mae'r prif elfennau yn ymwneud yn bennaf â diogelwch y preswylwyr ac mae'r elfennau eilaidd yn ymwneud yn bennaf â chysur y preswylwyr. Mae manylion llawn am y safon ar gael yn y '[Canllawiau diwygiedig i landlordiaid cymdeithasol ar ddehongli a chyrraedd SATC, 2008](#)' (Saesneg yn unig). Er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r safon, rhaid i annedd fodloni pob elfen unigol fel y nodir yn y canllawiau. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd, efallai na fydd yn bosibl bodloni'r gofynion ar gyfer elfen unigol. Gall sefyllfaoedd o'r fath gynnwys preswylwyr yn dewis peidio â derbyn y gwaith sydd angen ei wneud, cyfyngiadau ffisegol sy'n atal gwaith rhag cael ei wneud, nid yw'n gost-ffeithiol gwneud y gwaith, neu amseru, lle trefnwyd, am reswm da, fod y gwaith yn cael ei wneud yn nes ymlaen. Yn yr achosion hyn, gall y landlordiaid gofnodi bod un neu fwy o elfennau yn cydymffurfio ar yr amod eu bod yn fethiannau derbyniol.

## Asesu elfennau o SATC yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Oherwydd natur rhai o elfennau'r safon a methodoleg yr Arolwg, dim ond 13 o brif elfennau a 13 o elfennau eilaidd y safon y bu modd eu hasesu (am ragor o fanylion, ewch i [Atodiad A](#)). Dangosir y rhain yn [Nhabl 1](#).

### Methiannau Derbyniol

Ni all asesiad yr Arolwg ystyried dewisiadau tenantiaid, cyfyngiadau amgylcheddol (statws adeilad rhestredig, ardal gadwraeth ac ati), costau gormodol na rhesymau eraill sy'n egluro pam y gallai landlord cymdeithasol nodi bod elfen yn fethiant derbyniol yn y ffurflenni a gyflwynir ganddo. Felly, nid yw'r asesiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys 'Methiannau Derbyniol'. Dylid ystyried hyn wrth edrych ar [Dabl 1](#) isod.

### Gwahaniaethau asesiadau'r Arolwg

Mae rhai elfennau lle mae asesiad yr Arolwg yn wahanol i'r [canllawiau](#) (Saesneg yn unig):

- *Elfen 3a - A yw'r system wresogi yn weddol ddiwastraff ac yn gallu gwresogi'r annedd at lefel resymol (Prif elfen)?*

Mae'r [canllawiau](#) (Saesneg yn unig) yn datgan y dylid amcangyfrif hyn gan ddefnyddio Gweithdrefn Asesu Safonol y Llywodraeth ar gyfer Sgôr Ynni Anheddau 2005 (SAP 2005) a rhaid cael sgor o 65 allan o 100 o leiaf. Fodd bynnag, defnyddiodd yr Arolwg fethodoleg y SAP ddiweddaraf a gyhoeddwyd yn 2012.

- *Elfen 3d - A yw'r tanc dŵr wedi'i inswleiddio'n effeithiol (Prif elfen)?*

Mae'r [canllawiau](#) (Saesneg yn unig) yn datgan bod yn rhaid i'r tanc dŵr poeth gael ei inswleiddio'n effeithiol gan ddefnyddio siaced sy'n 75mm (3") o drwch o leiaf. Fodd bynnag, asesodd yr Arolwg anheddau yn erbyn trwch inswleiddio o 80mm o leiaf.

### **Asesiadau a addaswyd**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol ers i'r [canllawiau](#) (Saesneg yn unig) diwygiedig gael eu cyhoeddi yn 2008 er mwyn pennu'r ffordd orau o asesu'r elfennau ar lawr gwlad, er mwyn rhoi darlun teg o p'un a yw SATC wedi cael ei chyrraedd yn sgil datblygiadau ers cyhoeddi'r canllawiau. Yn unol â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wybod a'r hyn a gytunwyd â'r landlordiaid, mae'r dull o asesu dwy elfen wedi cael ei addasu i gyd-fynd â'r datblygiadau hyn:

- *Elfen 4b – A oes digon o gyfleusterau ar gyfer golchi, sychu a chrasu dillad (Elfen eilaidd)?*

O dan yr asesiad a addaswyd, mae'r gofyniad i gael digon o silffoedd yn y cwpwrdd crasu wedi cael ei ddileu.

- *Elfen 4d - A oes cawod yn ogystal â bath (Prif elfen)?*

O dan yr asesiad a addaswyd, ystyrir bod cawod sy'n gweithio, ar ei phen ei hun, yn ddigon er mwyn bodloni gofyniad yr elfen hon.

### **Asesiad Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 o rai o elfennau SATC**

Ar gyfer y mwyafrif o'r 26 o elfennau a aseswyd yn yr Arolwg, roedd cyfran uwch o tai cymdeithasol<sup>1</sup> yn bodloni gofynion elfennau unigol na deiliadaethau eraill (tai perchenogion-ddeiliaid neu dai rhent preifat), wrth ddefnyddio'r asesiadau a addaswyd a ddisgrifir uchod. Yn achos 19 o'r 26 o elfennau, roedd dros 90 y cant o tai cymdeithasol yn bodloni'r gofynion ac roedd rhwng 85 y cant a 90 y cant ohonynt yn bodloni gofynion tair elfen arall.

Er bod cyfran uchel o bob deiliadaeth yn bodloni'r gofynion, er enghraifft bod yn sefydlog o ran strwythur a dim arwyddion o ddadfeilio, yn glir rhag lleithder, ceginau ac ystafelloedd ymolchi mewn cyflwr da; roedd nifer fawr o elfennau lle roedd tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fodloni'r gofynion na deiliadaethau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

#### **Rhan 2 – Diogel**

- Elfen 2a - A yw'r grisiau a'r canllaw yn ddiogel (Prif elfen)?
- Elfen 2h - A oes digon o larymau ac offer tân (Prif elfen)?

---

<sup>1</sup> Ar gyfer ACTC maetai cymdeithasol yn cynnwys yr holl dai sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol. Yn ogystal â stoc tai cymdeithasol, gall landlordiaid cymdeithasol hefyd fod yn berchen ar, neu yn rhannol berchen ar, fathau eraill o dai.

- Elfen 2j – A oes synwryddion mwg sy'n cael eu pweru gan y brif wifren ar bob llawr (Prif Elfen)?
- Elfen 2i - A oes gan yr ystafelloedd gwely lwybrau dianc nad ydynt yn pasio drwy ystafell arall (Elfen eilaidd)?
- Elfen 2n - A yw'r drysau a'r ffenestri allanol yn rhoi lefel resymol o ddiogelwch ffisegol (Prif elfen)?

### **Rhan 3 - Wedi'i wresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi'i inswleiddio'n dda**

- Elfen 3a - A yw'r system wresogi yn weddol ddiwastraff ac yn gallu gwresogi'r annedd at lefel resymol (Prif elfen)?
- Elfen 3b - A yw'r drysau a'r ffenestri allanol yn gallu gwrthsefyll drafft yn ddigonol (Prif elfen)?
- Elfen 3d - A yw'r tanc dŵr wedi'i inswleiddio'n effeithiol (Prif elfen)?
- Elfen 3e - A oes system fecanyddol ddigonol i dynnu aer o'r gegin a'r ystafell ymolchi (Elfen eilaidd)?

Tai rhent preifat oedd yn lleiaf tebygol o fodloni gofynion yr elfennau yn ymwneud â digon o le storio neu digon o le ar gyfer teclynnau yn y gegin neu ddigon o gyfleusterau ar gyfer golchi, sychu neu grasu dillad, ond roeddent yn fwy tebygol na thai perchenogion-ddeiliaid i gynnwys synwryddion ac offer diogelwch tân priodol.

Tai perchenogion-ddeiliaid oedd yn fwyaf tebygol o gyrraedd y safon o ran digon o le ar gyfer byw o ddydd i ddydd, gyda dim ond tua 53 y cant i 56 y cant o dai rhent preifat ac anheddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni gofynion yr elfen hon o gymharu â 68 y cant o anheddau perchenogion-ddeiliaid. Mae'r Arolwg yn defnyddio dimensiynau llawr manwl a chyfansoddiad yr aelwyd ar adeg yr arolygiad i gyfrifo hyn yn gywir.

Mae rhai elfennau lle mae cyfran yr anheddau yr amcangyfrifir eu bod wedi bodloni gofynion yr elfennau hynny yn llawer is na'r mwyafrif.

- *Elfen 2o – A yw'n hawdd cynnal a chadw'r ardd gefn, ac a yw'n eithaf preifat, yn ddiogel ac yn addas i blant ifanc chwarae ynddi (Prif elfen)?*

Mae'n debygol bod amgylchiadau lle gallai hyn fod yn berthnasol o ganlyniad i ddaearyddiaeth neu amgylchedd rhai ardaloedd, er enghraifft, gerddi serth yng nghymoedd y De. Mewn achosion o'r fath, gall landlordiaid cymdeithasol farnu bod hyn yn gyfystyr â methiant derbynoli ar gyfer anheddau o'r fath. Ni allai'r Arolwg, fodd bynnag, gymryd hyn i ystyriaeth.

- *Elfen 3a – A yw'r system wresogi yn weddol ddarvoudus (Prif elfen)?*

Defnyddiwyd y sgoriau SAP diweddaraf (SAP 2012) i asesu anheddau yn yr Arolwg. Aseswyd bod llai na hanner o anheddau perchenogion-ddeiliaid ac anheddau rhent preifat yn bodloni gofynion yr elfen hon, ond roedd cyfran uwch o anheddau awdurdodau lleol (62 y cant) ac anheddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (74 y cant) yn gwneud hynny.

**Tabl 1: Canran yr anheddau yr ystyrir eu bod wedi bodloni gofynion rhai o elfennau SATC yn ôl deiliadaeth, Cymru, 2017-18**

Y cant

Efen		Anheddau yr ystyrir yd eu bod w edi bodloni gofynion SATC					
		Tai cymdeithasol			Perchennog-ddeiliad	Rhent preifat	Pob deiliadaeth
		Holl dai cymdeithasol	Aw durdod lleol	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig			
<b>Prif Elfennau</b>							
1a	A yw'r annedd yn sefydlog o ran ei strwythur heb arwyddion ei fod yn dadfeilio?	100	99	100	98	96	98
1b	A yw'r annedd yn glir rhag lleithder?	100	100	99	99	99	99
2a	A yw'r grisiau a'r canllaw yn ddiogel?	98	99	98	91	92	92
2h	A oes digon o larymau ac offer tân?	98	100	98	*	93	95
2j	A oes synwryddion mwg wedi'u pweru o'r prif gyflenwad ar bob llawr?	94	92	94	42	58	54
2n	A yw'r drysau a'r ffenestri allanol yn rhoi lefel resymol o ddiogelwch ffisegol?	90	92	89	81	77	82
2o	A yw'n hawdd cynnal a chadw'r ardd gefn, ac a yw'n yn eithaf preifat, yn ddiogel ac yn addas i blant ifanc chwarae ynddi?	83	81	84	79	76	79
3a	A yw'r system wresogi yn weddol ddiwastraff?	69	62	74	42	42	47
3b	A yw'r drysau a'r ffenestri allanol yn gallu gwrthsefyll drafft yn ddigonol?	92	92	92	86	84	87
3d	A yw'r tanc dŵr wedi'i inswleiddio'n effeithiol?	93	94	92	74	79	76
4a	A yw'r gegin yn 15 mlwydd oed neu'n iau, oni bai ei bod mewn cyflwr da?	98	98	99	99	97	98
4c	A yw cyfleusterau'r ystafell ymolchi a'r tŷ bach yn 25 mlwydd oed neu'n iau, oni bai eu bod mewn cyflwr da?	99	99	99	98	98	98
4d	A oes cawod yn ogystal â bath?	65	61	68	81	79	78
	<i>A oes cawod sy'n gweithio yn bresennol?</i>	95	91	97	96	94	95
<b>Elfennau Eilaidd</b>							
2b	A oes digon o le ar gyfer teclynnau yn y gegin?	91	87	94	92	86	91
2c	A yw'r arwyneb yn ddigonol ar gyfer paratoi bwyd yn ddiogel?	97	97	98	97	98	97
2d	A yw'r cypyrddau storio yn gyfleus ac yn ddigonol?	93	90	95	96	88	95
2e	A yw nifer y socedi pŵer cyfleus yn y gegin yn ddigonol?	100	100	100	100	100	100
2f	A yw'r deunyddiau sydd ar y llawr yn y gegin a'r ystafell ymolchi yn ddiogel ac yn addas i'w defnyddio?	99	100	99	98	97	98
2i	A oes gan yr ystafelloedd gwely lwybrau dianc nad ydynt yn pasio drwy ystafell arall?	92	91	92	81	72	81
3c	A yw'r ystafell fyw wedi'i gwahanu oddi wrth ddrws y brif fynedfa?	93	92	95	90	87	90
3e	A oes system fecanyddol ddigonol i dynnu aer o'r gegin a'r ystafell ymolchi?	64	61	66	35	37	40
4b	A oes digon o gyfleusterau ar gyfer golchi, sychu a chrasu dillad?	83	82	83	77	65	77
	<i>(wedi dileu'r gofyniad i gael digon o silffoedd yn y cwpwrdd crasu)</i>	85	83	86	81	68	80
7a	A oes digon o le yn yr annedd ar gyfer byw o ddydd i ddydd?	55	54	56	68	53	64
7b	A oes digon o le storio cyffredinol yn fewnol ac yn allanol?	73	67	77	75	57	72
7d	A oes gan yr annedd y cymhorthion ffisegol angenrheidiol i fodloni gofynion y preswylwyr?	85	83	87	90	82	88
7f	A oes mynediad palmantog i'r lein ddillad a giât yr ardd?	87	83	89	78	78	79

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

- *Elfen 3e - A oes system fecanyddol ddigonol i dynnu aer o'r gegin a'r ystafell ymolchi (Elfen eilaidd)?*

Er mai dim ond 6 o bob 10 o anheddau tai cymdeithasol a oedd yn bodloni gofynion yr elfen hon, roedd llai na 4 o bob 10 o anheddau preifat a oedd yn gwneud hynny. Fel y nodir yn y [canllawiau](#) (Saesneg yn unig), asesodd yr Arolwg yr elfen hon drwy gofnodi a oedd ffan tynnu aer fecanyddol yn bresennol yn y gegin a'r ystafell ymolchi ac os felly, a oedd yn gweithio. Gwelwyd mai diffyg ffaniau mecanyddol oedd yn fwyaf tebygol o arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â'r elfen hon yn hytrach nag achosion lle roedd ffaniau yn bresennol ond nad oeddent yn gweithio. Roedd hyn hefyd yn fwy tebygol o ddigwydd yn y gegin na'r ystafell ymolchi. Asesodd yr Arolwg mai dim ond os oedd gorchuddion popty yn agor i du allan yr adeilad y gellir ystyried eu bod yn ddigonol.

## Mesur procsi cyffredinol SATC

Asesodd yr arolwg cyflwr tai blaenorol a gynhaliwyd yng Nghymru, sef Arolwg Byw yng Nghymru 2008, y stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn erbyn elfennau o SATC; [Byw yng Nghymru 2008: Safon Ansawdd Tai Cymru](#) (Saesneg yn unig). Yn yr asesiad hwnnw, ystyriwyd bod annedd wedi cyrraedd SATC pe bai wedi llwyddo ym mhob un o'r 13 o brif elfennau ac o leiaf naw (neu 75%) o'r 13 o elfennau eilaidd, fel y'u mesurwyd gan Arolwg 2008. Mesur procsi oedd hwn gan mai dim ond is-set o elfennau yn y safon a gafodd eu hasesu yn ystod yr Arolwg. Defnyddiwyd yr un fethodoleg i gyfrifo mesur procsi cyffredinol ar gyfer SATC gan ddefnyddio'r data o Arolwg 2017-18. Mae hyn yn golygu y gellir llunio cymariaethau bras rhwng 2008 a 2017-18 ac olrhain unrhyw gynnydd.

Fodd bynnag, wrth gymharu â 2008, rhaid ystyried y bu newid bach rhwng yr elfennau eilaidd a ddefnyddir ym mesur procsi cyffredinol SATC. Trafodir hyn ymhellach yn [Atodiad A](#).


Mae'r mesur procsi hwn hefyd yn ein galluogi i gymharu deiliadaethau gwahanol. Nid yw'r mesur procsi yn cymharu'n uniongyrchol ag [Ystadegau Swyddogol SATC ar gyfer tai cymdeithasol](#) (fel y disgrifir isod).

Gwelwyd cynnydd yng nghyfran yr anheddau ym mhob deiliadaeth sy'n bodloni mesur procsi cyffredinol SATC rhwng 2008 a 2017-18<sup>2</sup>. Roedd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ganran uwch o anheddau a oedd yn bodloni mesur procsi cyffredinol SATC (34 y cant) nag anheddau awdurdodau lleol (27 y cant), fel y gwelwyd yn 2008 hefyd (9 y cant o anheddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a 4 y cant o anheddau awdurdodau lleol).

Roedd y ddau fath o ddeiliadaeth landlordiaid cymdeithasol wedi perfformio'n well na deiliadaethau eraill (perchenogion-ddeiliaid a rhent preifat). Y sector rhentu preifat oedd â'r ganran isaf o anheddau a oedd yn bodloni mesur procsi cyffredinol SATC (13 y cant), a oedd ychydig yn is nag anheddau perchenogion-ddeiliaid (14 y cant). Yn gyffredinol, yn 2017-18, roedd 17 y cant o **holl** anheddau Cymru yn bodloni mesur procsi cyffredinol SATC, gwelliant o 14 pwynt canran ers 2008<sup>2</sup>.

<sup>2</sup> Aseswyd elfennau o SATC ym mhob deiliadaeth yn 2008 ond dim ond deiliadaethau cymdeithasol a gafodd eu cyhoeddi.

**Siart 1: Canran yr anheddau sy'n bodloni mesur procsi cyffredinol SATC yn ôl deiliadaeth, 2008 a 2017-18 (gan ddefnyddio data'r arolwg cyflwr tai)**



Ffynonellau: Arolwg Byw yng Nghymru 2008  
Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

**Mesur procsi cyffredinol a addaswyd SATC**

Fel y trafodir uchod ac fel y dangosir yn [Nhabl 1](#), yn unol â'r cyngor a roddwyd i landlordiaid cymdeithasol ar ddehongli'r canllawiau yn ymarferol, lluniwyd asesiadau a addaswyd o elfennau 4b (*A oes cawod yn ogystal â bath?*) a 4d (*A oes digon o gyfleusterau ar gyfer golchi, sychu a chrasu dillad?*). Gan ddefnyddio'r elfennau a addaswyd, sef 4b a 4d, mae mesur procsi cyffredinol a addaswyd wedi cael ei gyfrifo ar gyfer SATC hefyd.

**Tabl 2: Canran yr anheddau sy'n bodloni mesur procsi cyffredinol SATC a mesur procsi cyffredinol a addaswyd SATC, 2017-18**

Deiliadaeth	Mesur Procsi Cyffredinol <sup>(1)</sup>	Y cant
		Mesur Procsi Cyffredinol a Addaswyd <sup>(2)</sup>
Holl dai cymdeithasol	31	46
Awdurdod lleol	27	40
Landlord cymdeithasol cofrestredig	34	49
Perchennog-ddeiliad	14	15
Rhent preifat	13	19
Pob deiliadaeth	17	21

(1) Mae'n cynnwys yr elfennau hynny a aseswyd yn yr Arolwg yn unol â [chanllawiau diwygiedig 2008](#) (Saesneg yn unig)


(2) Mae'n cynnwys yr elfennau hynny a aseswyd yn yr Arolwg yn unol â'r asesiad a addaswyd

Mae canran yr anheddau sy'n bodloni mesur procsi cyffredinol a addaswyd SATC yn uwch ym mhob deiliadaeth nag wrth ddefnyddio'r mesur procsi cyffredinol. Gweler yr adran [Ffynhonnell data amgen](#) isod am gymariaethau.

## Prif elfennau

O'r anheddau tai cymdeithasol **nad oeddent yn bodloni'r mesur procsi cyffredinol**, roedd bron pob un ohonynt (mwy na 99 y cant) wedi gwneud hynny am nad oeddent wedi bodloni un neu fwy o'r prif elfennau. Roedd y sefyllfa'n debyg ym mhob deiliadaeth.

### Siart 2: Canran yr anheddau **nad oeddent yn bodloni** mesur procsi cyffredinol SATC, yn ôl nifer y prif elfennau na chafodd eu bodloni a deiliadaeth, 2017-18



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Roedd nifer y prif elfennau na chafodd eu bodloni yn amrywio yn ôl deiliadaeth. Yn 2017-18, o'r anheddau hynny **nad oeddent yn bodloni'r mesur procsi cyffredinol**, roedd 42 y cant o anheddau perchennogion-ddeiliaid a 38 y cant o anheddau rhent preifat wedi methu â bodloni tair neu fwy o'r prif elfennau. O gymharu, roedd 14 y cant o anheddau awdurdodau lleol ac 11 y cant o anheddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi methu â bodloni tair neu fwy o'r prif elfennau. Amcangyfrifodd [mesur 2008 SATC a oedd yn defnyddio data'r Arolwg Byw yng Nghymru](#) (Saesneg yn unig) ffigur o 66 y cant ar gyfer anheddau awdurdodau lleol a 77 y cant ar gyfer anheddau landlordiaid cymdeithasol, ond dylid nodi na ellir cymharu'r mesurau hyn yn uniongyrchol (gweler uchod a'r adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#)).




## Elfennau eilaidd

O'r anheddau tai cymdeithasol **nad oeddent yn bodloni'r mesur procsi cyffredinol**, roedd 12 y cant wedi bodloni'r holl elfennau eilaidd.

Lle nad oedd anheddau wedi bodloni'r elfennau eilaidd, roedd graddau'r diffyg cydymffurfiaeth yn amrywio yn ôl deiliadaeth, gydag anheddau landlordiaid cymdeithasol yn methu â bodloni llai o elfennau eilaidd nag anheddau awdurdodau lleol tra bod anheddau preifat yn methu â bodloni mwy o elfennau eilaidd.

### Siart 3: Canran yr anheddau **nad oeddent yn bodloni** mesur procsi cyffredinol SATC, yn ôl nifer yr elfennau eilaidd na chafodd eu bodloni a deiliadaeth, 2017-18



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

(a) Ni ddangosir canran yr anheddau rhent preifat sy'n bodloni'r holl elfennau eilaidd gan fod y ffigur yn seiliedig ar nifer rhy fach o ymatebion.

Yn 2017-18, roedd 97 y cant o tai cymdeithasol **nad oeddent yn bodloni'r mesur procsi cyffredinol** wedi methu â bodloni pedair neu lai o'r elfennau eilaidd, o gymharu ag 80 y cant yn 2008. O gymharu, roedd 93 y cant o anheddau perchennogion-ddeiliaid ac 86 y cant o anheddau rhent preifat wedi methu â bodloni pedair neu lai o'r elfennau eilaidd. Fel y trafodir uchod, mae'n rhaid i anheddau fodloni pob un o brif elfennau'r safon a 75% (naw neu fwy) o'r elfennau eilaidd er mwyn cydymffurfio â'r mesur procsi cyffredinol.

Wrth edrych ar tai cymdeithasol a oedd **yn bodloni'r mesur procsi cyffredinol**, unwaith eto, roedd nifer yr elfennau eilaidd na chafodd eu bodloni yn amrywio yn ôl landlord, gyda 38 y cant o anheddau awdurdodau lleol yn methu â bodloni un neu ddim un o'r elfennau eilaidd o gymharu â 59 y cant o anheddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.


## Ffynhonnell data amgen: Ffurflenni ystadegol Tai Cymdeithasol ar SATC

Mae gwahaniaeth rhwng canran yr tai cymdeithasol a oedd yn bodloni mesur procsi cyffredinol a addaswyd SATC (46 y cant) a'r gyfradd cydymffurfio â SATC a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol ar gyfer yr [Ystadegau Swydddogol ar SATC](#). Yn ôl y ffurflenni hyn, mae 63 y cant o tai cymdeithasol yn cyrraedd SATC yn llawn (heb gynnwys methiannau derbyniol) ar 31 Mawrth 2018.

Cydnabyddir bod ffyrdd gwahanol o fesur y gwelliannau yn ansawdd tai sy'n gysylltiedig â SATC. Gellir priodoli'r gwahaniaeth rhwng y ddwy set o gyfraddau cydymffurfiaeth a gafwyd i'r ffactorau canlynol: y methodolegau gwahanol a ddefnyddir gan Arolwg Cyflwr Tai Cymru a landlordiaid cymdeithasol wrth gasglu gwybodaeth; amseriad yr asesiadau hyn; diben y ddau gasgliad data; y ffaith y bydd landlordiaid yn defnyddio eu gwybodaeth ehangach am eu stoc yn y ffurflenni; a'r ddarpariaeth y gellir cynnwys methiannau derbyniol o ran stoc yn y ffurflenni a lenwir gan landlordiaid ond nid yn asesiadau'r Arolwg.

Yr hyn sy'n amlwg, fodd bynnag - waeth pa fesur a ddefnyddir - yw bod ansawdd stoc dai cymdeithasol yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf.

### Siart 4: Canran yr anheddau tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio'n llawn â SATC (Ystadegau Swydddogol) (a)



Ffynhonnell: Ffurflenni blynyddol SATC, ar 31 Mawrth

(a) Heb gynnwys methiannau derbyniol.

## Atodiad A - Asesiad o elfennau o Safon Ansawdd Tai Cymru yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: Rhagor o fanylion

Diben yr atodiad hwn yw rhoi rhagor o fanylion am yr asesiad a gynhaliwyd o elfennau o Safon Ansawdd Tai Cymru yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18, fel y trafodir yn gryno yn yr adran uchod [Asesu elfennau o SATC yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18](#).

Oherwydd natur rhai o elfennau SATC a methodoleg Arolwg 2017-18, dim ond 13 o brif elfennau a 13 o elfennau eilaidd y safon y bu modd eu hasesu a dangosir y rhain yn [Nhabl 1](#). Mae hyn yn unol â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn [Arolwg Byw yng Nghymru 2008: adroddiad SATC](#) (Saesneg yn unig). Mae'r 13 o brif elfennau a fesurwyd yn 2008 a 2017-18 yr un peth ac mae 12 o'r 13 o elfennau eilaidd yr un peth. Yr unig wahaniaeth yw bod elfen 7e (*A oes ardal wastad o faint rhesymol y gellir mynd iddi'n uniongyrchol o'r annedd?*) wedi cael ei dileu o ganlyniad i gamgymeriad wrth ddylunio ffurflen yr Arolwg, a bod elfen 7a (*A oes digon o le yn yr annedd ar gyfer byw o ddydd i ddydd?*) wedi cael ei chynnwys, gan fod modd modelu hyn bellach. Mae'r ddwy elfen yn dod o'r un adran o'r [canllawiau](#) sy'n ymwneud â gofynion penodol yr aelwyd, ond mae elfen 7a yn mesur gofod byw tra bod elfen 7e yn mesur yr ardd. Mae llawer mwy o ofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn pasio elfen 7a. Felly, efallai y bydd aelwydydd yn fwy tebygol o fethu â bodloni elfen 7a nag elfen 7e. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu y gallai mesur procsi cyffredinol 2017-18 fod yn is nag y byddai pe bai modd cymharu dwy flwyddyn yr arolwg yn uniongyrchol.

Mae'n werth nodi nad yw'n ofynnol i landlordiaid cymdeithasol fesur adrannau 5 a 6 o SATC ('Wedi'i reoli'n dda' ac 'Wedi'i leoli mewn amgylcheddau deniadol a diogel') ar hyn o bryd sy'n golygu mai cyfanswm yr elfennau a gaiff eu cynnwys yn y ffurflenni ystadegol tai cymdeithasol ar SATC (ddefnyddir ar gyfer yr [Ystadegau Swyddogol](#)) yw 33, dim ond 9 yn llai na'r nifer a gafodd eu hasesu yn yr Arolwg.

Er mwyn cyfrifo'r cyfraddau pasio ar gyfer elfennau unigol ([Tabl 1](#)), cafodd gwerthoedd coll lle nad oedd gofynion yr elfennau yn berthnasol eu hepgor. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl hepgor unrhyw elfennau wrth gyfansymio. Felly, wrth gyfrifo'r mesur procsi cyffredinol a'r mesur procsi cyffredinol a addaswyd, ystyriwyd bod elfennau wedi pasio lle roedd y data ar goll am nad oedd y gofynion yn berthnasol i anheddau penodol. Er enghraifft, efallai na fydd elfen 2o (*A yw'n hawdd cynnal a chadw'r ardd gefn, ac a yw'n eithaf preifat, yn ddiogel ac yn addas i blant ifanc chwarae ynddi?*) yn berthnasol i fflatiau. Dim ond pump o'r 26 o elfennau a fesurwyd yr oedd hyn wedi effeithio amynt (2h, 2o, 3d, 7d, 7f).

### Asesiad a addaswyd

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol ers i'r [canllawiau](#) (Saesneg yn unig) diwygiedig gael eu cyhoeddi yn 2008 er mwyn pennu'r ffordd orau o asesu'r elfennau ar lawr gwlad er mwyn rhoi darlun teg o p'un a yw SATC wedi cael ei chyrraedd ac yn sgil datblygiadau ers cyhoeddi'r canllawiau. Yn unol â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wybod a'r hyn a gytunwyd â'r landlordiaid, mae'r dull o asesu dwy elfen wedi newid yn ymarferol:

- *Elfen 4d - A oes cawod yn ogystal â bath?*

Mae angen cael cawod a bath mewn annedd er mwyn bodloni gofynion 4d, yn ôl y canllawiau. Fodd bynnag, gall landlordiaid ystyried bod cawod sy'n gweithio, ar ei phen ei hun, yn ddigon i fodloni'r elfen hon. Yn ogystal, efallai ei bod hi'n well gan denantiaid gael cawod yn unig, gan adlewyrchu addasiadau a wneir i ddiwallu anghenion y tenantiaid. Yn yr achosion hyn, ystyrir bod rhai landlordiaid wedi cyflawni elfen 4d ond ni fyddai'r Arolwg wedi gwneud hynny oni bai bod bath a chawod ar gael (gellir cael cawod dros y bath). Felly caiff asesiad a addaswyd, lle roedd cael cawod sy'n gweithio, ar ei phen ei hun, yn ddigon i fodloni gofyniad yr elfen, ei ddarparu hefyd.

- *Elfen 4b – A oes digon o gyfleusterau ar gyfer golchi, sychu a chrasu dillad?*

Mae'r [canllawiau](#) yn datgan, 'there should be adequate facilities for washing, drying and airing clothes, which include: space, power and plumbing for a washing machine; provision for an external drying line; and an airing cupboard. Additionally, in dwellings where a hot water tank is present, there should be a heated airing cupboard with at least 1m<sup>2</sup> of internal slatted shelving provided'. Caiff asesiad a addaswyd, lle mae'r gofyniad i gael digon o silffoedd yn y cwpwrdd crasu wedi cael ei ddileu ei ddarparu hefyd.

Mae rhai elfennau lle mae asesiad yr Arolwg yn wahanol i'r [canllawiau](#) (Saesneg yn unig):

- *Elfen 3a - A yw'r system wresogi yn weddol ddiwastraff ac yn gallu gwresogi'r annedd at lefel resymol (Prif elfen)?*

Mae'r [canllawiau](#) (Saesneg yn unig) yn datgan y dylid amcangyfrif hyn gan ddefnyddio Gweithdrefn Asesu Safonol y Llywodraeth ar gyfer Sgôr Ynni Anheddau 2005 (SAP 2005) a rhaid cael sgor o 65 allan o 100 o leiaf. Fodd bynnag, defnyddiodd yr Arolwg fethodoleg y SAP ddiweddaraf a gyhoeddwyd yn 2012. Mae methodoleg y SAP wedi cael ei diweddarau'n sylweddol ddwywaith ers fersiwn 2005 a gafodd ei defnyddio ar gyfer gwaith modelu Byw yng Nghymru 2008, yn gyntaf i SAP 2009 ac yna SAP 2012. Yn ogystal, cafodd methodoleg SAP Llai o Ddata (RdSAP) ar gyfer SAP 2012 ei diweddarau ym mis Tachwedd 2017. Nid yw hyn yn newid cyfrifiadau'r SAP ond mae'n newid y ffordd y caiff casgliadau eu llunio ar gyfer elfennau o gyfrifiadau'r SAP na chânt eu mesur yn uniongyrchol mewn arolwg anymwthiol. Mae'r gyfres hon o ddiweddariadau, ynghyd â gwelliannau parhaus i'r modelau a ddefnyddir i gyfrifo'r SAP, wedi cyflwyno nifer o newidiadau i'r ffordd y caiff SAP ei chyfrifo.

- *Elfen 3d - A yw'r tanc dŵr wedi'i inswleiddio'n effeithiol (Prif elfen)?*

Mae'r [canllawiau](#) (Saesneg yn unig) yn datgan bod yn rhaid i'r tanc dŵr poeth gael ei inswleiddio'n effeithiol gan ddefnyddio siaced sy'n 75mm (3") o drwch o leiaf. Fodd bynnag, asesodd yr Arolwg anheddau yn erbyn trwch inswleiddio o 80mm o leiaf. Roedd camgymeriad wrth ddylunio ffurflen yr Arolwg ac mae'n wahanol i [asesiad Byw yng Nghymru 2008 o SATC](#) (Saesneg yn unig).

## Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o wybodaeth ansawdd 'Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: Asesiad o Elfennau o Safon Ansawdd Tai Cymru'. Noder bod **Adroddiad Ansawdd** manwl ar ystadegau Arolwg Cyflwr Tai Cymru wedi cael ei gyhoeddi ar [wefan yr Arolwg](#), sy'n mesur ansawdd yn erbyn pum dimensiwn. Perthnasedd, Cywirdeb a Dibynadwyedd, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb a Chydlyniaeth.

### Cefndir i'r Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Roedd bwch critigol yng ngwybodaeth Llywodraeth Cymru am gyflwr tai yng Nghymru. Y casgliad cynhwysfawr diwethaf o ddata ar gyflwr tai yng Nghymru, cyn Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18, oedd Arolwg Byw yng Nghymru 2008. Ym mis Mehefin 2016 rhoddwyd caniatâd a chyllid ar gyfer y [Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai](#). Caiff y Rhaglen ei rheoli gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi o fewn Llywodraeth Cymru ac mae'n cwmpasu dwy ffrwd waith:

- [Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18](#);
- [Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru](#): Yn syml, cronfa sy'n casglu ystod o ddata am nodweddion, adeiladwaith, cyflwr ac effeithlonrwydd ynni'r stoc dai yng Nghymru. Lle bo hynny'n bosibl, bydd y data hyn ar lefel eiddo unigol.

Cynhaliwyd Arolwg Cyflwr Tai Cymru gan y [Sefydliad Ymchwil Adeiladu](#) (BRE) ar ran Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng mis Awst 2017 a mis Ebrill 2018. Cynhaliwyd yr archwiliadau eiddo gan syrfewyr cymwys, a oedd yn cwblhau asesiad gweledol o'r tu mewn a'r tu allan i'r eiddo. Roedd yr archwiliadau'n para tua 40-50 munud, gan dreulio tua 20 munud y tu mewn yn archwilio pob ystafell. Roedd y syrfewr hefyd yn archwilio plot yr eiddo ac yn asesu'r gymdogaeth leol. Am fanylion llawn am bynciau'r Arolwg, darllenwch Ffurflen yr Arolwg, sydd ar gael ar [wefan yr Arolwg](#).

### Cyfraddau Ymateb

Tynnwyd sampl o gyfeiriadau o aelwydydd a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) 2017-18. Cyflawnwyd cyfanswm o 2,549 o arolygon llawn Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n golygu y gellir llunio amcangyfrifon cenedlaethol. Sicrhaodd cyfwelwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru gyfradd gydsynio o 58% ac, o'r rheini, sicrhaodd syrfewyr y Sefydliad Ymchwil Adeiladu gyfradd drosi o 78%. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 45%.

Mae cyfyngau hyder o 95% wedi cael eu cyfrifo ar gyfer newidynnau allweddol Arolwg Cyflwr Tai Cymru ac maent wedi'u cynnwys yn y Syllwr Canlyniadau, sydd ar gael ar [wefan yr Arolwg](#).

### Sut y caiff Arolwg Cyflwr Tai Cymru ei ddefnyddio?

Mae gwybodaeth allweddol a gesglir yn yr Arolwg yn golygu y gellir asesu eiddo o ran effeithlonrwydd ynni, costau atgyweirio, [Safon Ansawdd Tai Cymru \(SATC\)](#), [tiodi tanwydd](#) a'r [System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai](#). Bydd hefyd yn helpu i wella'r maes Tai yn

niweddariad [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#) 2019 ac yn ategu dau o [Ddangosyddion Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ar gyfer Cymru, yn benodol cartrefi sy'n rhydd rhag peryglon a chartrefi â mesurau effeithlonrwydd ynni digonol. Mae cysylltiad agos rhwng Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 â [Rhaglen Datgarboneiddio](#) Llywodraeth Cymru a chaiff ei gydnabod fel un o'r ffynonellau data hollbwysig, yn enwedig ar gyfer y gweithgor adeiladau domestig. Caiff yr Arolwg ei ddefnyddio hefyd i ddarparu data mewn perthynas â llawer o anghenion eraill ym maes polisi cymdeithasol, tai a'r amgylchedd e.e. effaith tai gwael ar iechyd, addysg a gweithgarwch economaidd.

### **Pwy sy'n defnyddio Arolwg Cyflwr Tai Cymru?**

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Arolwg at ddibenion llunio polisi, ym maes tai a'r amgylchedd yn bennaf, ond hefyd anghenion polisi cymdeithasol. Mae gan yr Arolwg amrywiaeth eang o ddefnyddwyr eraill hefyd, gan gynnwys: Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; awdurdodau lleol ledled Cymru; Iechyd Cyhoeddus Cymru; sefydliadau yn y trydydd sector; adrannau eraill llywodraeth y DU a sefydliadau llywodraeth leol; sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; academyddion; cwmnïau preifat; y cyfryngau; ac aelodau o'r cyhoedd.

### **Cryfderau a Chyfyngiadau**

Rhoddir gwybodaeth fanwl am gryfderau a chyfyngiadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn Adran 3.1 (Perthnasedd) o'r Adroddiad Ansawdd, sydd ar gael ar [wefan yr Arolwg](#).

### **Adroddiad Technegol**

Ceir gwybodaeth fanwl am y fethodoleg a ddefnyddir yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn adroddiad technoleg yr Arolwg, sydd ar gael ar [wefan yr Arolwg](#).

### **Geirfa**

Mae Geirfa fanwl ar gael ar [wefan yr Arolwg](#) sy'n rhoi diffiniadau o'r termau allweddol yn yr adroddiad hwn.

### **Dehongli'r canlyniadau**

Nid oedd y syrfëwr wedi ateb rhai cwestiynau ar y ffurflen archwilio ffisegol os nad oeddent yn berthnasol.

Lle nodwyd cydberthynas rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu mai cydberthynas achosol ydyw. Mae angen dadansoddiad manylach er mwyn nodi a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall, neu a yw ffactorau eraill yn bwysicach mewn gwirionedd.

Mae'r canlyniadau wedi'u pwysoli yn ôl aelwyd ac wedi'u graddnodi i lefelau Cymru. Mae pwysoli ar gyfer dim cydsyniad wedi'i gymhwyso hefyd.

Nid yw anheddau gwag wedi'u cynnwys yn yr asesiad o elfennau o'r safon. Lle bo'r adroddiad hwn yn cyfeirio at ganrannau anheddau, mae'r ffigurau yn seiliedig ar anheddau â phreswylwyr yn byw ynddynt, ac nid ydynt yn cynnwys anheddau gwag.

## Arwyddocâd Ystadegol

Mae detholiad o fesurau allweddol yn y Syllwr Canlyniadau yn cynnwys cyfyngau hyder bras o 95%. Cyfrifwyd y cyfyngau hyder gan ddefnyddio'r pecyn ystadegol Stata. Mae'r rhain yn rhoi syniad o gywirdeb yr amcangyfrifon. Gellir cyfrifo cyfwng hyder o amgylch amcangyfrif arolwg ac mae'n rhoi amrediad sy'n debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mae 95% o siawns bod y cyfyngau hyder o 95% yn cynnwys y gwerth gwirioneddol. Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder. Fel canllaw bras i ddehongli, wrth gymharu dau newidyn, os bydd y cyfyngau hyder o amgylch yr amcangyfrifon yn gorgyffwrdd, gellir tybio nad yw'r amcangyfrifon yn sylweddol wahanol o safbwynt ystadegol – nid yw'r dull hwn o weithredu mor drwyadl â phrawf ystadegol ffurfiol, ond mae'n syml, yn gymharol gadarn ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Oni nodir fel arall, mae'r gwahaniaethau yn yr adroddiad hwn yn arwyddocaol.

## Cydlyniaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi [adroddiadau ystadegol blynyddol](#) ar [Safon Ansawdd Tai Cymru](#). Ni ellir cymharu'r data yn yr adroddiadau hyn ag 'Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: Asesiad o elfennau o Safon Ansawdd Tai Cymru' o ganlyniad i wahaniaethau yn y ffordd y caiff y data eu casglu a'u mesur (gweler [Atodiad A](#)).

Mae pob un o wledydd y DU yn adrodd ar fesur i asesu ansawdd eu stoc dai. Gellir gweld y canlyniadau diweddaraf drwy ddilyn y dolenni isod.

Yn Lloegr, ceir adroddiad ar y Safon Cartrefi Gweddus ar [dudalen 13 o Arolwg Cyflwr Tai Lloegr](#) (Saesneg yn unig).

Ar gyfer 2013-14 ymlaen, [caiff gwybodaeth am Safon Ansawdd Tai yr Alban ei chyhoeddi yma](#). (Saesneg yn unig). [Cyn hyn, roedd y Safon yn cael ei chofnodi yma](#). (Saesneg yn unig).

[Safon Cartrefi Gweddus Gogledd Iwerddon](#) (Saesneg yn unig).

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) (Saesneg yn unig) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#) (Saesneg yn unig). Mae'r [adroddiad asesu](#) (Saesneg yn unig) a'r [llythyr dynodi](#) (Saesneg yn unig) i'w gweld ar dudalennau gwe y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai pob ystadegyn swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol i ystadegau ar ôl asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried p'un a yw'r ystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os bydd gennym bryderon ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod yn ddi-oed. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol unrhyw bryd os na chaiff y safonau uchaf eu cynnal, a'i adfer pan gaiff safonau eu hadfer.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith ar gyfer Cymru. Y nodau hyn yw cael Cymru lewyrchus, gydnherth, iachach, fwy cyfartal, fwy cyfrifol yn fyd-eang â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwysu at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys dau o'r dangosyddion cenedlaethol, sef Dangosydd 31 (canran yr anheddau sy'n rhydd o beryglon) a Dangosydd 33 (canran yr anheddau sydd â pherfformiad ynni digonol).

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, mae'n rhaid cyfeirio atynt mewn dadansoddiadau o lesiant lleol a baratoir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.



## **Rhagor o fanylion**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Arolwg Cyflwr Tai Cymru: <https://www.llyw.actc>

Mae Adroddiad Ansawdd, Adroddiad Technegol a Geirfa ar gael ar [wefan yr Arolwg](#). Ceir Syllwr Canlyniadau hawdd ei ddefnyddio hefyd, sy'n cyflwyno canlyniadau ar nifer o bynciau.

## **Y diweddariad nesaf**

Caiff dadansoddiadau manwl ar bynciau penodol (ar lefel genedlaethol) eu cyhoeddi drwy gydol 2019. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y cyhoeddiadau arfaethedig ar [wefan Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#). Cyhoeddir dadansoddiad manwl o dodi tanwydd yn ystod haf 2019.

## **Rydym am gael eich adborth**

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bostio [ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru](mailto:ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru).

## **Trwydded Llywodraeth Agored**

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Drwydded Llywodraeth Agored f3.0](#), oni nodir fel arall.

